OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 157 (Cy.21)

**PRIFFYRDD, CYMRU**

## GORCHYMYN CEFNFFORDD CAERDYDD I LAN CONWY (YR A470) (GWELLIANT MAES YR HELMAU I CROSS FOXES A THYNNU STATWS CEFNFFORDD) 2012

*Gwnaed* *23 Ionawr 2012*

*Yn dod i rym* *2 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1), a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

1. Daw'r priffyrdd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadau eu hadeiladu ar hyd y llwybrau a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gefnffyrdd o'r dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym.

2. Dangosir llinellau canol y cefnffyrdd newydd â llinellau du trymion ar y plan a adneuwyd.

3. Bydd y darn o gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau rhesog llydan ar y plan a adneuwyd yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddosbarthiadol o'r dyddiad yr hysbysir Cyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru fod y cefnffyrdd newydd yn agored ar gyfer traffig trwodd.

4. Yn y Gorchymyn hwn:-

Mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

i. ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn y rhif HA10/2 WAG5, a farciwyd "Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470)

(Gwelliant Maes yr Helmau i Cross Foxes a Thynnu Statws Cefnffordd) 2012", a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru;

ii. ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470);

iii. ystyr "y cefnffyrdd newydd" (*"the new trunk roads"*) yw'r cefnffyrdd a grybwyllir yn erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn.

5. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Chwefror 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Maes yr Helmau i Cross Foxes a Thynnu Statws Cefnffordd) 2012.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiad 23 Ionawr 2012

*G R Morgan*
**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1980 p.66
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi'u trosglwyddo, o ran Cymru, i Weinidogion Cymru.

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

## LLWYBRAU'R CEFNFFYRDD NEWYDD

Mae llwybrau'r cefnffyrdd newydd rhwng Maes yr Helmau a Cross Foxes yn Sir Gwynedd fel a ganlyn:

1. Darn sy'n dechrau wrth bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 130 metr i'r de-ddwyrain o gornel ddeheuol yr eiddo a elwir

‘The Lodge’ (a farciwyd A-A ar y plan a adneuwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o tua 0.64 cilometr hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 397 metr i’r de o gornel dde-orllewinol yr eiddo a elwir ‘‘R Efail’ (a farciwyd B-B ar y plan a adneuwyd).

2. Darn sy’n dechrau wrth bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 643 metr i’r gogledd o gornel ogleddol yr eiddo a elwir ‘Rhiwspardyn’ (a farciwyd C-C ar y plan a adneuwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad y de yn gyffredinol am bellter o tua 0.35 cilometr hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 353 metr i’r gogledd-orllewin o gornel ogledd-orllewinol yr eiddo a elwir ‘Rhiwspardyn’ (a farciwyd D-D ar y plan a adneuwyd).

## ATODLEN 2

## DARN O GEFNFFORDD SY’N PEIDIO Â BOD YN GEFNFFORDD

Y darn o gefnffordd sy’n peidio â bod yn gefnffordd yw’r llwybr fel a ganlyn yn Sir Gwynedd:

Y darn hwnnw o gefnffordd sy’n dechrau wrth bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 67 metr i’r gorllewin o gornel dde-orllewinol yr eiddo a elwir ‘‘R Efail’ ac yn ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o tua 0.13 cilometr hyd at bwynt ar y gefnffordd bresennol rhyw 14 metr i’r de o’i chyffordd â’r ffordd B4416 i’r Brithdir (a farciwyd A ar y plan a adneuwyd).